PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

26 Mai 2010

Troi problem yn adnodd

Prosiect Gwyrdd yn cyhoeddi cwmnïau llwyddiannus ar gyfer y contract gwastraff

Yn dilyn Hysbysiad yr OJEU yn Nhachwedd 2009, mae Prosiect Gwyrdd wedi gwerthuso'r cynigion Holiadur Cyn-Gymhwyso (HCG) ac mae'r cwmnïau llwyddiannus wedi eu dewis. Mae'r bartneriaeth yn falch iawn o'r diddordeb a ddangoswyd gan y farchnad, gyda thri deg chwech o gwmnïau yn lawr lwytho'r holiadur ac un deg pedwar o gwmnïau yn cyflwyno eu holiaduron yn ffurfiol i'r bartneriaeth.

Ers dyddiad cau y cynigion HCG ar Ionawr 22, mae Tîm y Project wedi bod yn gwerthuso'r cynigion yn erbyn meini prawf cytunedig, yn cynnwys ystyriaethau technegol, cyllidol, cyfreithiol, iechyd a diogelwch ac yswiriant.

Ar hyn o bryd, mae'r system gaffael mewn cyfnod 'edrych nôl', i asesu a ydy'r bartneriaeth o'r farn bod y cwmnïau wedi dangos y gallen nhw gyflenwi project mawr a chymhleth fel hwn. Yn ystod cyfnod yr HCG porir yn fanwl iawn drwy gefndir cwmni sydd wedi dangos diddordeb, ynghyd ag unrhyw gwmnïau eraill cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'i gynnig.

Does dim cynigion neu opsiynau technolegol na lleoliadau wedi eu cyflwyno i'r bartneriaeth eto. Mae'r broses hon yn cychwyn nawr, yn gofyn am 'ddatrysiadau amlinellol' gan y cwmnïau llwyddiannus i'w cyflwyno ar gyfer eu gwerthuso. Dyma fan cychwyn y 'Broses Ddialog Gystadleuol', pan fydd y Project yn gweithio gyda'r cwmnïau ac yn cyd-drafod y cynigion.

Mae pob ymgeisydd (cynigydd) yn gallu cyflwyno dau gynnig. Gall y ddau gynnig hyn gyflwyno opsiynau technolegol gwahanol i'w gilydd, a lleoliadau gwahanol hefyd.

Yn ystod y rhan hon o'r broses gaffael, bydd y cynigion a ddaw i'r fei yn hollol gyfrinachol. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd drwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid pan fydd yn gyfreithiol bosibl i'r bartneriaeth wneud hynny.

Mae sioeau teithiol wedi cael eu trefnu yn ystod Mehefin, fel bod y bartneriaeth yn gallu parhau i ymwneud â'r cyhoedd ynghylch yr angen i ddatblygu seilwaith gwastraff a rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cwmnïau llwyddiannus a ddewiswyd.

Mae'r 'gwahoddiad i gyfrannu at ddeialog' (GGAD) wedi ei hanfon i'r cwmnïau llwyddiannus canlynol (yn nhrefn yr wyddor):

- Covanta Energy Ltd - http://covantaenergy.co.uk
- MVV Umwelt Gmbh - www.mvv-environment.co.uk
- Shanks Group PLC/Wheelabrator Technologies Inc -
- http://www.shanks.co.uk/ http://www.wheelabratortechnologies.co.uk/
- SITA UK Ltd - http://www.sita.co.uk
- Urbaser Ltd - http://www.urbaser.es/en/en_index.htm
- Veolia ES Aurora Ltd - http://www.veoliaenvironmentalservices.co.uk
- Viridor Waste Management Limited - http://www.viridor.co.uk
- Waste Recycling Group Ltd - http://www.wrg.co.uk

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523

PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

Dywedodd y Cynghorydd Mark Stephens, Cadeirydd y Cyd Bwyllgor sy'n llywodraethu'r project:

"Mae'r Cynghorau sy'n rhan o'r bartneriaeth yn hapus gyda lefel y diddordeb a ddaeth o'r farchnad. Yn amlwg, mae Prosiect Gwyrdd yn awyddus i sicrhau bod y broses fydd yn arwain at ddatrys gwastraff gweddilliol mor gystadleuol â phosibl. Mae'r bartneriaeth yn niwtral o ran technoleg a bydd yn asesu'r holl gynigion a wneir yn erbyn meini prawf cytunedig.

"Mae sioeau teithiol wedi cael eu trefnu mewn ardaloedd ym mhob un o'r Cynghorau yn ystod Mehefin, fel bod aelodau o'r Tîm Project yn gallu para i ymwneud â'r cyhoedd ynghylch yr angen i ddatblygu seilwaith gwastraff a datrys gofynion gwastraff gweddilliol ar ôl ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl ym mhob ardal.

"Mae'n rhaid rhoi diwedd ar yr arfer o anfon y mwyafrif o'n gwastraff i safleoedd tirlenwi. Mae pob un o awdurdodau'r bartneriaeth yn para i ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl. Bydd Prosiect Gwyrdd yn darparu ateb ar gyfer gweddill y gwastraff, gan droi cymaint â phosibl o'r gwastraff hwn yn adnoddau defnyddiol ac anfon cyn lleied o wastraff â phosibl i safleoedd tirlenwi.

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523